# Defnyddio’r idiomau i drafod mewn grŵp

| Idiom | Fi | Ti | Fo/fe | Hi |
|---|---|---|---|---|
| Siarad trwy'i het | Dw i ddim yn siarad trwy fy het. | Paid siarad trwy dy het. | Mae o'n / e'n siarad trwy'i het eto. | Mae hi'n siarad trwy'i het weithiau. |
| Cael pig i mewn | Dw i ddim yn gallu cael fy mhig i mewn o gwbl. | Rwyt ti'n cael dy big i mewn rhy aml. | Mae o'n / e'n gallu cael ei big i mewn. | Mae hi'n llwyddio i gael ei phig i mewn bob tro. |

| Idiom | Sut i ddefnyddio’r idiomau |
|---|---|
| dros ben llestri | Rwyt ti'n mynd dros ben llestri rwan. |
| taro'r hoelen ar ei phen | Mae o / e wedi  taro'r hoelen ar ei phen. |
| hollti blew | Paid â hollti blew. |
| pwyso a mesur | Rhaid i ni bwyso a mesur. |
| cadw'r ddysgl yn wastad | Mae'n bwysig cadw'r ddysgl yn wastad. |
| gwneud môr a mynydd | Paid a gwneud môr a mynydd. |
| taeru du yn wyn | Rwyt ti'n taeru du yn wyn. |
| rhaffu celwyddau | Mae Jon yn  rhaffu celwyddau yn fy marn i. |
| tynnu'n groes | Paid a  thynnu'n groes o hyd. |
| gwylltio'n gacwn | Mae Dewi wedi gwylltio'n gacwn. |
| tynnu blewyn o drwyn | Tynnu blewyn o drwyn rwyt ti rwan. |

cbac
wjec